Clecs!

Gwanwyn 2010

Dysgu Cymraeg yng Ngogledd Cymru – newyddion, digwyddiadau a mwy...

Croeso...

Mae ymarfer eich Cymraeg y tu allan i'r ystafell ddosbarth yr un mor bwysig â mynd i wersi. Darllenwch ymlaen i glywed hanesion dysgwyr eraill ac i weld pa weithgareddau sy'n cael eu trefnu yn eich ardal chi…

CYMRAEG I OEDOLION
WELSH FOR ADULTS
Canolfan Gogledd Cymru
North Wales Centre

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

BLOG BRENHINOL

Mae 'na lawer yn adnabod Will Williams ar hyd a lled Gogledd Cymru – nid yn unig am ei fod **yr un ffunud** â Jim Royle o'r gyfres deledu boblogaidd 'The Royle Family', ond hefyd am ei fod yn gwneud cymaint o waith **gwirfoddol** yn **ymgyrchu** a chodi arian at bob math o **elusennau** lleol. Eleni, mi fydd yn cychwyn ar ymgyrch newydd wrth iddo fynd ati i ddysgu Cymraeg.

Cafodd Will ei fagu y tu allan i Gymru, ond mae wedi byw yng Nghaernarfon ers 25 mlynedd bellach ac yn rhedeg busnes Gwely a Brecwast 'Tŷ Hapus' yn y dref. Ar ôl colli ei wraig ychydig dros flwyddyn yn ôl, mi welodd mor glos a chymwynasgar oedd y gymuned Gymraeg leol. Er mwyn rhoi rhywbeth yn ôl a medru cymryd mwy o ran yn y gymuned honno, penderfynodd Will osod her iddo'i hun a dysgu Cymraeg.

Mae Will, sydd wedi bod yn mynd i wersi ers rhai wythnosau, wedi cychwyn blog er mwyn rhannu ei hynt a'i helynt gyda dysgwyr eraill ac i annog mwy o bobl i ddysgu. Meddai Will: "Dwi wrth fy modd yn rhannu fy mhrofiadau gyda'r byd a'r betws am ddysgu Cymraeg, ac yn gobeithio y gallaf gael mwy o bobl i sylweddoli pa mor bwysig, hwyliog a di-boen ydi'r broses."

Mi allwch ddilyn ymdrech Will trwy fynd i www.roylewelsh.com. Cofiwch hefyd bod adnoddau ar-lein eraill ar gael trwy fynd i'r wefan **www.learncymraeg.org.**

?

yr un ffunud	=	the spit of
gwirfoddol	=	voluntary
ymgyrchu	=	campaign
elusennau	=	charities

www.learncymraeg.org

Gwobr Dysgwr Y Flwyddyn 2009

Ddim ond dwy flynedd a hanner ar ôl symud i Gymru o Ohio, enillodd Meggan Lloyd Prys deitl Dysgwr y Flwyddyn 2009.

Mae Meggan yn dod yn wreiddiol o Chillicothe, ac yno'r oedd yn byw ac yn astudio pan wnaeth hi gyfarfod ei gŵr, Cynog, a datblygu diddordeb yn y Gymraeg a Chymru. Aeth ati i ddysgu Cymraeg yn syth ar ôl cyrraedd yma; a dim ond mewn mis wedyn, fe briodod drwy gyfrwng y Gymraeg.

Ar ôl blwyddyn a hanner o ddysgu doedd Meggan ddim yn siarad unrhyw beth ond Cymraeg gyda theulu ei gŵr. Erbyn hyn, mae'n gweithio fel **Cymhorthydd Dosbarth** ac **Anghenion Addysgol Arbennig** drwy gyfrwng y Gymraeg yn Ysgol Llanfairpwll, Ynys Môn ac mae hefyd yn diwtor Cymraeg i Oedolion - camp fawr i unrhyw ddysgwr.

Meggan Lloyd Prys yn derbyn Tlws Dysgwr y Flwyddyn yn Eisteddfod Genedlaethol Meirion a'r Cyffuniau 2009

Cymhorthydd Dosbarth
= Classroom assistant

Anghenion Addysgol Arbennig
= Special needs

Os dach chi ddim yn deall rhywun yn siarad Cymraeg, gofynnwch iddyn nhw siarad yn araf: "Araf os gwelwch yn dda, dw i'n dysgu Cymraeg".

Gwnewch Bopeth Yn Gymraeg...

- Gwrando ar sgwrs anffurfiol... **www.saysomethinginwelsh.com/home**
- Lawrlwytho podlediadau... **www.cymraegonthemove.co.uk**
- Dilynwch ni ar Twitter... **www.twitter.com/learn_cymraeg**
- Pori'r we... **www.bbc.co.uk/learwelsh**
- CYMRAEG ar y we... **www.gwefan.org**
- Ewch i'n gwefan... **www.learncymraeg.org**

Clecs Sir y Fflint

CLWB CD

Cafodd Clwb CD ei sefydlu ar gyfer dysgwyr sydd newydd ddechrau dysgu Cymraeg yn ardal sir y Fflint ac sydd isio clywed mwy o'r iaith a thrio cynnal sgwrs. Mae'r **pwyslais** mwya ar hwyl trwy'r Gymraeg ac mae croeso i ddysgwyr o bob lefel. Dyma hanes un o'u gweithgareddau diweddara...

Ar noson oer o Dachwedd be well na chyri poeth? Dyna'n union gafodd Clwb CD ar ôl i un o'r tiwtoriaid **awgrymu** cynnal noson i ddysgwyr yn y Bengal Dynasty yn Shotton gan bod y rhai sy'n gweini yno yn dysgu Cymraeg.

Nid hawdd oedd meddwl sut i droi noson Indiaidd yn noson Gymreig, ond cynigiodd Menter Iaith Sir Y Fflint gynnal noson Ymwybyddiaeth Iaith. Bu bron i Rebecca gael sioc pan glywodd y diwrnod cynt bod yn agos at 50 yn dod. Bu rhaid iddi newid ei syniadau yn sydyn iawn a pharatoi cwis yn holi ffeithiau am Gymru, gyda phecyn yn cynnwys y rhan fwyaf o'r atebion yn cael ei rannu i bob dysgwr. Ar ôl y cwis cawsom fwffe bendigedig, gyda digonedd o fwyd a gwydraid o win yr un. Braf oedd clywed y gweinydd yn cynnig 'gwin coch neu win gwyn'?!

Roedd y noson yn hynod boblogaidd a dywedodd gweithwyr y Bengal Dynasty eu bod yn **awyddus** i'n gweld eto. Mae hwn yn siŵr o fod yn ddigwyddiad blynyddol, ond bydd rhaid i ni'r tiwtoriaid ehangu ein gwybodaeth am Gymru erbyn y flwyddyn nesa!

Am fwy o wybodaeth am weithgareddau Clwb CD, ewch i **www.learncymraeg.org.**

Pwyslais	=	emphasis
awgrymu	=	suggest
gweinydd	=	waiter
awyddus	=	keen
ynganiad	=	pronounce

Clecs Sir Ddinbych

Cafodd Côr Popeth ei sefydlu ar gyfer yr Eisteddfod yn Y Bala, ac mae'n dal i fynd o nerth i nerth o dan arweiniad medrus Nesta Davies. Dan ni'n trio dod o hyd i amser sy'n siwtio pawb. Cysylltwch efo swyddfa Popeth Cymraeg yn Ninbych (01745 8128287) am fanylion yr ymarfer nesaf.

Gwyliwch gymaint o deledu Cymraeg ag y gallwch chi a gwrandewch ar Radio Cymru mor aml â phosib. Peidiwch â phoeni os nad ydach chi yn deall wrth ddechrau dysgu - mae'n ddefnyddiol i chi glywed **ynganiad** yr iaith Gymraeg.

Clecs Gwynedd

NOSON WERTH CHWEIL YNG NGHOLEG MEIRION-DWYFOR

Ddechrau Rhagfyr, cynhaliwyd Parti Nadolig Dwyfor yng Ngholeg Meirion-Dwyfor, Pwllheli. Roedd y lle dan ei sang gyda dysgwyr Cymraeg o bob rhan o Lŷn. Yn **ogystal** â **hel eu boliau**, cafodd y dysgwyr gyfle i glywed Rhiain Dyer o Fynytho yn canu'r delyn ac Alys Roberts o Roslan yn canu carolau Cymraeg. Ar ddiwedd y noson ymunodd y dysgwyr ag Alys i ganu carolau yn Gymraeg ac i ganu'r Anthem Genedlaethol.

Uchafbwynt y noson i'r dysgwyr oedd clywed hanes anhygoel Meggan Prys, Dysgwraig y flwyddyn 2009, a ddechreuodd ddysgu Cymraeg yn ystod haf 2006 ddim ond mis cyn gwneud ei haddunedau priodasol yn y Gymraeg!

Dywedodd Fflur Rees Roberts a Catrin Evans-Thomas, trefnwyr y noson: "Mae hanes Meggan yn anhygoel ac yn un sydd wedi ysbrydoli dysgwyr Dwyfor gan ddangos ei bod yn bosibl, gyda **dyfalbarhad**, i ddod yn rhugl yn y Gymraeg o fewn dim!"

Nid y dysgwyr yn unig oedd wedi mwynhau'r noson: "Rwyf wedi mwyhau bod yma gyda dysgwyr Cymraeg Coleg Meirion-Dwyfor," meddai Meggan. "Ers ennill y teitl Dysgwr y Flwyddyn rwyf wedi bod ddigon ffodus i siarad gyda gwahanol grwpiau o ddysgwyr, i rannu fy mhrofiadau fel dysgwraig ac i glywed eu straeon nhw hefyd.'

?

ogystal	=	as well as
hel eu boliau	=	enjoying the food
dyfalbarhad	=	perseverance

DOD I NABOD...

Enw? Claire Davies

Oed? 26

Byw? Dwi'n byw ym Methesda

Gwaith? Dw i'n gweithio fel Uwch Ddadansoddwr Gwybodaeth i Heddlu Gogledd Cymru

Pam dysgu Cymraeg? Ro'n i wedi dysgu Cymraeg fel ail iaith yn ysgol ond doeddwn i ddim wedi defnyddio'r iaith llawer ar ôl gadael ysgol. Ro'n i'n teimlo fy mod i wedi colli llawer o'r iaith a do'n i ddim yn rhugl i ddechrau.

Sut mae siarad Cymraeg di' dy helpu di? Mae dysgu Cymraeg wedi agor drysau newydd i mi. Dwi'n teimlo mwy fel rhan o fy nghymuned a dw i'n deall fwy am enwau llefydd a strydoedd, sydd yn ddiddorol iawn. Dwi'n teimlo'n lwcus fy mod i'n gallu darllen llyfrau Cymraeg oherwydd mae 'na lawer sydd ddim wedi eu cyfieithu i Saesneg. Yn fy ngwaith dw i'n gallu cynnig gwasanaeth dwyieithog (mwy neu lai).

Be sy' wedi eich helpu chi wrth ddysgu Cymraeg? Ymunais â sesiwn siarad sy'n cael ei gynnal ym Methesda. Mae'n esgus da i fynd allan am beint neu banad dwywaith y mis. Bob bore dw i'n gwrando ar 'Post Cyntaf' ar Radio Cymru pan dw i'n gyrru i gwaith. Mae'r rhaglen yn dda iawn oherwydd dach chi yn clywed rhywun yn siarad Cymraeg trwy'r amser a ddim cerddoriaeth.

Mae 'na amrywiaeth o wefannau ar gael ynglŷn â dysgu Cymraeg. Y rhai sydd yn ddefnyddiol i mi ydy: www.acen.co.uk cylchgrawn i ddysgwyr, pethau am hanes Cymru www.bbc.co.uk/wales/learnwelsh/> bob math o bethau i helpu chi dysgu Cymraeg www.geiriadur.net/ geiriadur ar-lein

Hoff air Cymraeg? 'sgwarnog (Ysgyfarnog)

Tips? Dal ati! Mae'n bwysig i ddefnyddio dy Gymraeg mor aml a fedrwch chi.

Gwrando ar y radio a gwylio S4C! Mae fy ngeirfa wedi gwella llawer trwy wrando ar Radio Cymru a gwylio rhaglenni teledu Cymraeg.

Os dydych chi ddim yn gwybod y gair Cymraeg am rywbeth defnyddio'r gair Saesneg-dim ots!

Claire Davies yn derbyn Gwobr 'Dysgwr Cymraeg y Flwyddyn' gyda Heddlu Gogledd Cymru yn Eisteddfod Genedlaethol Meirion a'r Cyffuniau.

Clecs Wrecsam

PARTI NADOLIG CLWB DYSGWYR CYMRAEG ARDAL WRECSAM (DAW)

Trefnwyd parti Nadolig cyntaf i ddysgwyr Cymraeg yn ardal Wrecsam yn mis Rhagfyr. 'Roedd dros 60 o ddechreuwyr o Goleg lâl yn bresenol a chafwyd hwyl yn dathlu'r Nadolig trwy chwarae gemau a dawnsio i gerddoriaeth Gymraeg yn nghlwb nos Frenzy, Wrecsam.

Ond dim ond y dechrau oedd y parti Nadolig; mae rhaglen lawn o **weithgareddau** wedi ei threfnu ar gyfer y flwyddyn nesaf. Yn mis Chwefror bydd sesiwn o gemau o bob math yn cael ei chynnal ym Mhlas Pentwyn, Coedpoeth. Ym mis Mawrth bydd dysgwyr yr ardal yn cael y cyfle i gael sgwrs a chan dros beint, ac ym mis Ebrill, bydd cyfle i'r dysgwyr gystadlu yn Eisteddfod y Dysgwyr yng Ngwersyllt.

Am fwy o wybodaeth, ac i gael y rhaglen lawn, cysylltwch â Helen Pritchard-Jones, **Cydlynydd** Cymraeg i Oedolion Coleg lâl ar 01978 311794 neu HPJ@yale-wrexham.ac.uk.

Clecs Môn

PROFIAD DYSGWR: MEIC WILLIAMS

Er mod i'n Gymro, dwi wedi cael fy magu yn yr iaith Saesneg, felly fasa ffrindiau byth yn meddwl siarad Cymraeg efo fi. Mae pob cyfle dwi'n ei gael, felly, yn bwysig i mi. Fel Dysgwr Cymraeg ac aelod o'r clwb "Sadwrn Sgwrsio", roeddwn i'n cyfarfod llawer o bobol ar yr un donfedd â'i gilydd. Roedd y tiwtoriaid yn ein arwain ni efo gwahanol dasgau, a darllen gwybodaeth am weithgareddau sy'n mynd ymlaen yn yr ardal, fel teithiau cerdded, arddangosfeydd ac ati, a mynd iddyn nhw wrth gwrs!

Ers i mi ymuno efo'r Sadwrn Sgwrsio, dwi wedi bod i Dwmpath Dawns, wedi bod ar fws i Eisteddfod Genedlaethol y Bala, i gyngerdd Sian James, a chyngerdd Dafydd Iwan, pob un ohonyn nhw am y tro cyntaf erioed. Mae wedi bod yn brofiad anhygoel i mi. Mae wedi agor drysau i fywyd newydd o ddealltwriaeth, ac i griw newydd o ffrindiau.

?

weithgareddau	=	activities
cydlynydd	=	coordiantor

Beth am drio mynd i o leiaf un gweithgaredd y mis i ymarfer eich Cymraeg.

Peidiwch â phoeni am gamgymeriadau wrth siarad Cymraeg. Mae'n rhan o'r broses o ddysgu, a chwerthwch arnyn nhw!

Meic Williams wrth ei ddesg yn swyddfa Menter Môn

Be sy 'mlaen...

Sir	Lle?	Be?	Pryd?
Ynys Môn	Gwesty'r Fic, Porthaethwy	Paned a Sgwrs	9.15-10.15 Ail ddydd Iau bob mis
	Swyddfa Menter Môn, Llangefni	Paned a Sgwrs	12.30-13.30 Ail ddydd Mawrth o bob mis
	Caffi Harvest Moon, Caergybi	Paned a Sgwrs	16.00-17.00 Ail ddydd Mercher o bob mis
	Llyfrgell Biwmares	Rhannu Rhigwm	9.30-11.00 Pob bore Llun
Gwynedd	Douglas Arms Bethesda	Peint & Sgwrs	20.00- 21.00 Trydydd Nos Lun o bob mis
	Y Ganolfan, Talysarn	Clwb Dysgwyr	13.00-15.00 Pob dydd Gwener
	8. Stryd Caerdydd, Pwllheli	Paned a Sgwrs	10.30-12.30 Pob dydd Sadwrn
	Y Felin Sgwrsio, Y Felinheli	Paned a Sgwrs	11.00- 12.30 Pob dydd Sadwrn
	Caffi Y Graig Fawr, Porthmadog	Paned a Sgwrs	10.30-12.30 Pob dydd Sadwrn
	Caffi Fitzpatrick	Paned a Sgwrs	11.00- 12.00 Dydd Sadwrn cyntaf o bob mis
	Y Ganolfan Porthmadog	Sesiwn Canu *	13.30 - 15.00 yn dechrau 18/01/10 (yna trydydd Dydd Llun o bob mis)
	Capel y Drindod, Pwllheli	Sesiwn Canu *	10.00 - 11.30 yn dechrau 21/01/10 (yna trydydd dydd Iau o bob mis)
Conwy	Ty Hesketh, Abergele	Paned a Sgwrs	10.00 Ail Ddydd Sadwrn o bob mis
	Llew Coch, Llansannan	Paned a Sgwrs	10.00 Trydydd Dydd Sadwrn o bob mis
	Canolfan Talgoed, Glan Conwy	Paned a Sgwrs	10.00 Trydydd Dydd Sadwrn o bob mis
	Caffi BHS, Llandudno	Paned a Sgwrs	10.00 bob bore Iau
Sir Ddinbych	Bar Gwin Gales, Llangollen	Sesiwn Sgwrsio	20.00-22.00 Ail Nos Fercher o bob mis
Sir Y Fflint	Tafarn y Blue Bell, Helygain	Sesiwn Siarad	19.00-20.30 Pob dydd Iau
	Tafarn Y Dderwen, Hendre, Yr Wyddgrug	Sesiwn Siarad	19.00-20.30 Pob dydd Iau
Wrecsam	Bwyty Canolfan Arddio Bellis, Holt	Sesiwn Siarad	10.30 Dydd Sadwrn cyntaf bob mis
	Tafarn Y Dderwen, Glyn Ceiriog	Sesiwn Siarad	19.00 Nos Fawrth cyntaf bob mis
	Tafarn Y Dderwen, Glyn Ceiriog	Sesiwn Siarad	19.00 Trydydd Nos Fawrth o bob mis
	Tafarn y Nag's Head, Wrecsam	Sesiwn Siarad	19.00 Nos Wener olaf o bob mis
	Tafarn Yr Haul, Rhosllanerchrugog	Sesiwn Siarad	19.30 Bob nos Fawrth
	Caffi Byw'n Iach, Coleg Ial, Wrecsam	Sesiwn Siarad	12.00-13.00 Bob dydd Iau
	Tafarn y Plas Coch, Wrecsam	Sesiwn Siarad **	19.15 bob nos Fercher (yn ystod gwyliau'r Coleg)
	Tafarn y Llew Aur, Coedpoeth	Dosbarthiadau Anffurfiol ***	20.00 Bob nos Lun

* Sesiwn ar agor i rieni a'u plant
** Cysyllter a Alison White ar 07853 374259
*** Manylion pellach Colin Edwards 01978 750613

Dewch o hyd i siaradwr Gymraeg i'ch helpu – ond dim eich tiwtor; beth am ffrind neu gydweithiwr?

Wedi mwynhau'r rhifyn yma?

Neu oes gennych chi rywbeth i gyfrannu i'r rhifyn nesa'?
Cysylltwch efo **Siwan Hywel**: **01248 388248**
neu **siwan.hywel@bangor.ac.uk**

Isho gwybod mwy am ddysgu Cymraeg yng Ngogledd Cymru?

Canolfan Cymraeg i Oedolion yw'r lle i ddod. Dyma eich siop-un-stop am wybodaeth am gyrsiau a digwyddiadau i ddysgwyr o bob lefel. Gallwn roi cyngor ac arweiniad i chi ar sut i fynd ati i ddysgu Cymraeg a rhoi chi mewn cysylltiad â'n darparwyr lleol. Cysylltwch â ni ar: **01248 383928**, **learncymraeg@bangor.ac.uk** neu ewch i'n gwefan **www.learncymraeg.org**